

---

## PWYLLGOR CRAFFU GOFAL 13.06.17

---

**Yn bresennol:** Y Cyngorwyr: Anwen J. Davies, Simon Glyn, E. Selwyn Griffiths, R. Medwyn Hughes, Elin Walker Jones, Linda Ann Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Rheinallt Puw, Peter Read, Dewi Wyn Roberts ac Angela Russell.

**Hefyd yn Bresennol:** Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democraidd), Gareth James (Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu), Debbie Anne Jones (Rheolwr Gwasanaethau Iaith Gymraeg) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau:** Y Cyngorwyr Annwen Daniels, Siân Wyn Hughes, Elfed Powell Roberts, Craig ab Iago (Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant), Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc), W. Gareth Roberts (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant)

### 1. ETHOL CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cyngorydd Eryl Jones-Williams yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cyngor ar gadeiryddiaethau craffu yn seiliedig ar gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor yn ei gyfarfod ar 16 Mehefin 2017**

### 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cyngorydd R. Medwyn Hughes yn Is-gadeirydd y pwyllgor hwn am 2017/18 yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cyngor yn ei gyfarfod ar 16 Mehefin 2017.**

Derbyniwyd eglurhad gan y Swyddog Monitro ynglyn â phenodiadau sydd i'w gwneud gan y grwpiau gwleidyddol a thynnodd sylw at ofynion yn Adran 70 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ac yn benodol Is-adran 6 sy'n gosod y trefniadau. Nodwyd ei bod yn ofynnol dyrannu cadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, fod cydbwysedd gwleidyddol yn cael ei adlewyrchu yn y cadeiryddiaethau hynny a bod y grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar y Weithrediaeth yn cael cyfran deg o'r cadeiryddiaethau. Yn unol â'r egwyddorion perthnasol, rhaid i'r ddarpariaeth benodi gael ei thalgrynnu i lawr i'r nifer cyfan agosaf, ac yn yr achos hwn 1.64, sy'n golygu 1 gadeiryddiaeth i'r grwp gweithrediaeth.

Felly ,dyrannir y cadeiryddiaeth yn seiliedig ar 3 Pwyllgor Craffu :

Grwp Annibynnol	-	2 gadair
Grwp Plaid Cymru	-	1 gadair

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

### **3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### **4. MONITRO PERFFORMIAD**

Adroddwyd y bydd yr Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol yn anfon cais i Aelodau'r Pwyllgor ddatgan diddordeb mewn mynychu cyfarfodydd herio perfformiad (13.7.17 – Gwasanaeth Plant a Theuluoedd; 19.7.17 Gwasanaeth Oedolion) ac yn y cyfamser gwnaed y datganiadau o ddiddordeb gan Aelodau unigol a oedd yn bresennol fel a ganlyn:

Gwasanaeth Plant a Theuluoedd: Y Cyngorwyr Beth Lawton, Angela Russell

Gwasanaeth Oedolion: Y Cyngorwyr Linda Ann Wyn Jones, Angela Russell, Peter Read, Dewi Roberts, Elin Walker Jones.

Nodwyd y byddir yn enwebu 2 Aelod i fynychu am gyfnod o oddeutu 2 flynedd, er cael trefn cysondeb.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10.20 am